




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Rhan 1

Canllawiau ar gyfer Adran 6 – Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau

Canllawiau ar Adrodd



1. CYFLWYNIAD

Mae byd natur yn dirywio yn fyd-eang ar raddfa nas gwelwyd ei thebyg mewn hanes, ac mae rhywogaethau yn diflannu yn gynt nag erioed. Bydd hyn yn debygol o gael effaith ddifrifol ar bobl ledled y byd.

Mae adroddiadau diweddar¹ gan gynnwys yr [Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol](#) (SoNaRR) a gyhoeddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn dangos bod colli bioamrywiaeth yn parhau yng Nghymru, er bod rhai ymyraethau cadarnhaol wedi'u cyflwyno dros y blynyddoedd diwethaf. Yn ôl yr adroddiadau hyn, dim ond trwy 'newid trawsffurfiol' brys (newid sylfaenol ledled y system ym meysydd technoleg, yr economi a chymdeithas) y bydd modd cadw ac adfer byd natur, a'i ddefnyddio mewn ffordd gynaliadwy. Mae hyn yn golygu bod angen cynyddu ein camau gweithredu ym maes bioamrywiaeth, rhannu arferion da yn ehangach ledled y sector cyhoeddus a thrwy ein partneriaid a'n rhanddeiliaid, a dileu arferion gwael ar frys.

Cyflwynodd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (y Ddeddf) ddyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ehangach (y ddyletswydd adran 6 neu a6) ar gyfer awdurdodau cyhoeddus wrth gyflawni swyddogaethau sy'n berthnasol i Gymru. Mae'r ddyletswydd a6 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus 'geisio cynnal ac ehangu bioamrywiaeth cyn belled ag y bod hynny'n gyson â chyflawni eu swyddogaethau'n briodol gan hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau drwy wneud hynny.' Er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd A6, dylai awdurdodau cyhoeddus ymgorffori'r angen i ystyried bioamrywiaeth ac ecosystemau yn eu syniadau a'u cynlluniau busnes cychwynnol, gan gynnwys unrhyw bolisiau, cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau, yn ogystal â'u gweithgareddau beunyddiol.

O dan adran 6(7) o'r Ddeddf, cyn diwedd 2019 a chyn diwedd bob trydedd flwyddyn ar ôl 2019, mae'n rhaid i bob awdurdod cyhoeddus gyhoeddi adroddiad sy'n nodi'r hyn y mae wedi'i wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd a6.

Prif bwrpas y canllawiau hyn yw helpu awdurdodau cyhoeddus i fodloni'r angen i gyflwyno adroddiad. Dylid darllen y canllawiau ar y cyd â'r canllawiau [Cwestiynau Cyffredin](#) sy'n darparu rhagor o wybodaeth am ddeddfwriaeth, llunio a chynnwys cynlluniau a6². Mae rhagor o wybodaeth a chanllawiau yn ymwneud â chamau gweithredu i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau ar gael ar dudalennau gwe [Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru](#).

Mae'r canllawiau hyn wedi'u cynllunio i hyrwyddo dull adrodd sy'n hyblyg ond yn cynnal rhywfaint o gysondeb, gan helpu i gyfnewid gwybodaeth rhwng awdurdodau cyhoeddus, cyfuno ymdrechion a rhannu arferion da ar gyfer camau gweithredu yn y dyfodol. Bydd y broses o roi'r ddyletswydd a6 ar waith ledled Cymru yn cael ei gwerthuso ar ôl cyhoeddi'r cylch cyntaf o adroddiadau. Bydd dilyn y canllawiau hyn yn hwyluso dull gweithredu cyson a fydd yn cryfhau'r sylfaen ar gyfer y gwerthusiad.

2. PWY DDYLAI LUNIO ADRODDIAD ADRAN 6?

¹ Er enghraifft, [Adroddiad IPBES](#) ac [Adroddiad Cyflwr Byd Natur 2019](#)

² Pryd bynnag y cyfeirir at gynlluniau a6 ac adroddiadau a6, noder y gallent gael eu hymgorffori mewn cynlluniau a phrosesau eraill, neu gallent fod yn ddogfennau annibynnol.

Mae adran 6(9) yn rhestru'r ystod eang o awdurdodau cyhoeddus y mae'r ddyletswydd yn berthnasol iddynt, ac mae hyn yn cael ei diffinio ymhellach yn adran 6(10). Mae'r rhestr yn cynnwys Gweinidogion Cymru, cyrff cyhoeddus, pobl sy'n dal swyddi cyhoeddus ac yn gwneud gwaith statudol. Wedi eu cynnwys hefyd mae ystod eang o sefydliadau gan gynnwys awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau iechyd cenedlaethol, ac awdurdodau parciau cenedlaethol.

Gall pob sefydliad wneud cyfraniad cadarnhaol at gynnal a gwella bioamrywiaeth, fel y nodir yn Nhabl 1 isod, a dylent allu dangos eu bod wedi rhoi ystyriaeth briodol i'r mater hwn trwy'r adroddiad adran 6.

Fodd bynnag, ni ddylai'r ddyletswydd adrodd fod yn feichus, a dylai fod yn gymesur i faint a natur y sefydliad, gan ystyried y camau y gallant eu rhoi ar waith i hyrwyddo bioamrywiaeth.

Tabl 1: Mathau o sefydliadau a chamau a6 posibl sy'n berthnasol i'w swyddogaethau

Grŵp	Disgrifiad o sefydliad mewn perthynas â bioamrywiaeth Sefydliadau:	Camau Gweithredu Sylfaenol	Enghreifftiau	Amcanion Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru (NRAP) ar gyfer Adrodd ar Gamau Gweithredu (gweler templed Atodiad 1)
1	<ul style="list-style-type: none"> • sy'n berchen neu'n meddiannu adeilad swyddfa yn unig • ac nad yw eu swyddogaethau'n gysylltiedig yn uniongyrchol â bioamrywiaeth a/neu reoli tir. 	Camau sy'n gysylltiedig â rheoli adeiladau, caffael, cynaliadwyedd, codi ymwybyddiaeth, hyfforddiant, neu mewn partneriaeth â sefydliadau eraill.	Comisiynau, DVLA	Amcanion NRAP 1, 4, 6
2	<ul style="list-style-type: none"> • sy'n berchen, yn meddiannu neu'n rheoli eu hadeiladau a'u tir eu hunain, • y mae eu swyddogaethau'n gysylltiedig â bioamrywiaeth a/neu reoli tir, neu • sy'n gallu dylanwadu ar y rhai sy'n berchen ar dir neu'n rheoli tir. 	Fel GRŴP 1 uchod A rheoli tir, rhaedru meini prawf cyllido, darparu addysg a hyfforddiant	Iechyd Cyhoeddus Cymru, Prifysgolion, Chwaraeon Cymru	Amcanion NRAP 1,4,6 fel uchod Amcanion NRAP 2, 3, 5 yn ymwneud â thir y sefydliad
3	<ul style="list-style-type: none"> • sy'n berchen ar dir neu'n rheoli tir y tu hwnt i'w tir eu hunain, waeth a yw eu 	Fel Grwpiau 1 a 2 uchod A rheoli tir er mwyn cynnal a gwella bioamrywiaeth, a	Dŵr Cymru, Awdurdodau Lleol, CNC,	Holl amcanion NRAP

swyddogaethau'n gysylltiedig â bioamrywiaeth a/neu reoli tir ai peidio.	hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau.	Llywodraeth Cymru	
---	-----------------------------------	-------------------	--

3. DIBEN A FFORMAT ADRODDIADAU

Mae'n rhaid i'r adroddiad ddatgan beth mae'r sefydliad wedi'i wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd a6.

Bydd yn darparu tryloywder ac atebolrwydd ar gyfer ymateb yr awdurdod cyhoeddus i'w ddyletswydd a6, a gallai weithredu fel adnodd cyfathrebu defnyddiol ar gyfer rhanddeiliaid, y gymuned a grwpiau busnes.

Hefyd, bydd yn sylfaen i'r awdurdod cyhoeddus adolygu ei gamau gweithredu a6, a bydd yr adroddiadau cyfunol ledled Cymru yn sylfaen i werthusiad Cymru gyfan o weithredu'r ddyletswydd a6.

Mae sefydliadau'n cael eu hannog i nodi eu dulliau adrodd eu hunain. Byddai'n arfer da iddynt adrodd fel rhan o'u systemau a/neu brosesau adrodd arferol, fel eu hadroddiad blynyddol, gan ddangos sut mae'r broses o ystyried bioamrywiaeth yn cael ei hymgorffori yn yr awdurdod cyhoeddus.

Er enghraifft, gan fod cyrff cyhoeddus sy'n destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd yn destun y ddyletswydd adran 6, gellid cynnwys yr adroddiad a6 yn yr adroddiad ar sut maent yn cyflawni eu hamcanion llesiant. Ar gyfer CNC, mae gweithredu o blaid bioamrywiaeth yn rhan annatod o'i ofynion statudol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy, felly bydd adrodd ar hynny yn ei adroddiad blynyddol yn bodloni'r gofyniad ar gyfer adroddiad adran 6.

Dylai sefydliadau eisoes fod wedi paratoi a chyhoeddi eu cynllun a6, ac mewn achos o'r fath, gellid paratoi'r adroddiad yng nghyd-destun y cynllun hwn, gan gyfeirio at y blaenoriaethau, y camau gweithredu a'r targedau a nodwyd yn flaenorol gan sefydliadau, fel sy'n briodol.

Fodd bynnag, mewn rhai achosion mae'n bosibl y bydd angen i sefydliadau lunio adroddiad ar wahân ac annibynnol er mwyn bodloni gofyniad y ddyletswydd a6.

4. CYNNWYS ADRODDIADAU

Mae templed ar gael yn Atodiad 1 i helpu i lunio adroddiad adran 6 os oes angen. Gellir defnyddio'r templed fel canllaw ar gyfer cynnwys, a lle bo angen, fformat, adroddiad adran 6, waeth a yw wedi'i gynnwys mewn adroddiad arall neu'n ddogfen annibynnol.

Mae'r templed yn cynnwys gwybodaeth sylfaenol y byddai'n fanteisiol ei choladu ar sail Cymru gyfan er mwyn hwyluso'r gwerthusiad o weithredu'r ddyletswydd a6 ar ôl y cylch adrodd cyntaf. Nid oes disgwyl i unrhyw awdurdod cyhoeddus feddu ar yr holl wybodaeth hon, ond bydd pob awdurdod cyhoeddus yn meddu ar rywfaint o'r wybodaeth hon.

Hefyd, mae'n debygol y bydd gan awdurdodau cyhoeddus wybodaeth ychwanegol am weithgareddau sy'n unigryw iddynt. Nid bwriad y wybodaeth sylfaenol sydd wedi'i chynnwys yw atal awdurdodau cyhoeddus rhag rhoi lle blaenllaw i wybodaeth ychwanegol mewn adroddiadau. Yn wir, mae ymgorffori camau gweithredu o blaid bioamrywiaeth ar draws swyddogaethau yn debygol o arwain at wahanol fathau o gamau gweithredu ac allbynnau gwahanol ar gyfer pob sefydliad.

- Cyflwyniad i'r Awdurdod Cyhoeddus, ei Swyddogaethau, a'i Lywodraethu yn ymwneud â bioamrywiaeth

Gallai hyn fod yn gysylltiedig â'r disgrifiadau o sefydliadau yn Nhabl 1. Dylid nodi gwaith llywodraethu'r ddyletswydd a6, a'r broses gynllunio ac adrodd.

- Uchafbwyntiau, Canlyniadau Allweddol a Materion

Dylid amlygu'r manteision cadarnhaol sy'n deillio o weithredu'r ddyletswydd a6, y materion allweddol ar gyfer bioamrywiaeth yn eich ardal ac unrhyw rwystrau i fynd i'r afael â'r materion hynny.

- Adroddiad Gweithredu, gan gynnwys unrhyw Fonitro, Mesurau a Dangosyddion

Yn unol â'r canllawiau Cwestiynau Cyffredin, awgrymir y dylai'r adroddiad ar weithredu ar gyfer y ddyletswydd adran 6 fod yn seiliedig ar amcanion Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru. Mae'r amcanion hyn yn adlewyrchu nodau strategol y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol, sef y cytundeb rhyngwladol allweddol ar fioamrywiaeth sydd wedi'i lofnodi gan Lywodraeth y DU.

Os yw awdurdodau cyhoeddus yn defnyddio fformatau sydd wedi'u hymgorffori, awgrymir bod angen nodi'r cysylltiadau ag amcanion Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru o hyd er mwyn dangos y cysylltiadau â fframweithiau cenedlaethol a rhyngwladol.

Bydd pob Awdurdod Cyhoeddus yn gyfrifol am y gwaith monitro, y mesurau a'r dangosyddion ar sail ei gynllun a6, ei swyddogaethau a'i flaenoriaethau. Bydd y gwerthusiad ar lefel Cymru gyfan yn chwilio am gysondeb, yn nodi mesurau a dangosyddion posibl ar gyfer adroddiadau yn y dyfodol, ac yn nodi cysylltiadau â mesurau a dangosyddion yn yr Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol, y Dangosyddion Cenedlaethol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a sylfeini tystiolaeth eraill.

Er mwyn hwyluso hyn, dylid cynnwys unrhyw fetrigau neu ddangosyddion ansoddol sydd eisoës yn cael eu mesur neu eu casglu yn eich sefydliad yn ymwneud â bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau.

Mae'r cynnwys sydd wedi'i awgrymu yn cynnwys:

Bydd defnydd da o ddeunydd darluniadol fel ffotograffau, siartiau, graffiau a mapiau yn sicrhau bod yr adroddiad yn fwy hygyrch.

Ar gyfer yr holl gynnwys, dylid mabwysiadu dull cyson o gynnwys y wybodaeth hon mewn adroddiadau yn y dyfodol.

5. CAMAU NESAF AC ADOLYGU

O dan adran 6(8) mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus sydd wedi cyhoeddi cynllun adran 6 adolygu'r cynllun ar sail yr adroddiad a6. Bydd angen i awdurdodau cyhoeddus adolygu eu camau gweithredu a'u hadroddiad er mwyn nodi'r hyn sydd wedi'i gyflawni, yr hyn sydd angen ei wella, a gwneud unrhyw ddiwygiadau a gwelliannau i'w cynlluniau a6 a'u camau gweithredu ym maes bioamrywiaeth yn y dyfodol.

Bydd pob awdurdod cyhoeddus yn gyfrifol am benderfynu eu prosesau gwella mewnol eu hunain, a gall hyn ddigwydd ar ôl cyhoeddi'r adroddiad a6. Fodd bynnag, mae rhai canllawiau ar gyfer y broses adolygu wedi'u cynnwys yn Atodiad 2. Os oes modd, byddai'n ddefnyddiol cynnwys hyn yn eich adroddiad er mwyn cynorthwyo'r gwerthusiad Cymru gyfan o'r ddyletswydd a6.

Os nad yw'r adolygiad yn mynd rhagddo ar yr adeg hon, dylai'r adroddiad nodi sut a phryd y bydd yn cael ei gynnal a sut fydd yr adolygiad yn cael ei gynnwys yn y cynllun a6.

Yn olaf, mae'n rhaid cyhoeddi'r adroddiad a6. Er mwyn sicrhau bod adroddiadau yn hygyrch, dylent fod ar gael mewn ystod o fformatau a chael eu cyhoeddi ar-lein. Fel ymarfer da, dylai'r adroddiadau ymddangos yn adran gorfforaethol y wefan. Os yw adroddiadau wedi'u hymgorffori, mae'n bosibl y bydd angen i sefydliadau sicrhau eu bod yn cyfeirio'n benodol at y ddyletswydd a6, gan gyfeirio at ddogfennau ac adroddiadau eraill fel sy'n briodol.

ATODIAD 1: TEMPLED ADRODD

Noder: Gellir defnyddio'r templed i helpu i lunio adroddiad adran 6 os oes angen. Os yw adroddiad a6 wedi'i gynnwys mewn proses adrodd arall, gellid defnyddio'r templed fel rhestr wirio i arwain y cynnwys.

Fodd bynnag, mae'r templed yn cynnwys gwybodaeth sylfaenol y byddai'n ddefnyddio ei choladu ar raddfa Cymru gyfan er mwyn hwyluso gwerthusiad gweithredu'r ddyletswydd a6 yn dilyn y cylch adrodd cyntaf. Nid oes disgwyl i unrhyw awdurdod cyhoeddus feddu ar yr holl wybodaeth hon, ond bydd pob awdurdod cyhoeddus yn meddu ar rywfaint o'r wybodaeth hon.

Nid oes unrhyw un o'r enghreifftiau sy'n cael eu hawgrymu yn gynhwysfawr. Mae'n debygol y bydd gan awdurdodau cyhoeddus wybodaeth ychwanegol am weithgareddau sy'n unigryw iddynt. Nid bwriad y templed yw atal awdurdodau cyhoeddus rhag rhoi lle blaenllaw i wybodaeth o'r fath mewn adroddiadau. Yn wir, mae ymgorffori camau gweithredu o blaid bioamrywiaeth ar draws swyddogaethau yn debygol o arwain at wahanol fathau o gamau gweithredu ac allbynnau gwahanol ar gyfer pob sefydliad.

Lle bo angen, gellir cyfeirio at adroddiadau eraill a/neu wybodaeth arall.

<p><i>Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 - Adran 6</i></p> <p><i>Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnherthedd Ecosystemau</i></p> <p><i>Adroddiad 2019</i></p>
<p>Enw'r Awdurdod Cyhoeddus</p>
<p>Cyflwyniad a Chyd-destun</p>
<ul style="list-style-type: none">• Disgrifiad byr o'r awdurdod cyhoeddus, ei swyddogaethau a'i gyd-destun mewn perthynas â<ul style="list-style-type: none">- bioamrywiaeth (gweler Tabl 1 uchod)- graddfa a lle gofodol- darpariaeth yr awdurdod cyhoeddus (er enghraifft, a yw'r sefydliad yn dod o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ei gysylltiad â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, cynlluniau llesiant, rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy a phroses y datganiad ardal).• Sut mae'r broses o wella bioamrywiaeth yn cyfrannu at swyddogaethau ac amcanion strategol eich sefydliad, a sut mae'n cael ei heffeithio ganddynt. Dylai cyrff cyhoeddus sy'n dod o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol nodi'r cysylltiad rhwng y ddyletswydd a chyflawni nodau, ar gyfer Cymru Gydnherth yn benodol, a'r pum ffordd o weithio.• Polisiâu, amcanion, dangosyddion perfformiad a threfniadau monitro allweddol.• Trefniadau llywodraethu yn ymwneud â gweithredu'r ddyletswydd a6 yn eich

sefydliad, yn cynnwys cyfeiriad at eich cynllun a6.

Uchafbwyntiau, Canlyniadau Allweddol a Materion

- Disgrifiad byr o'r canlynol:
 - Camau gweithredu bioamrywiaeth allweddol a/neu'r hyn nad ydych yn ei wneud bellach
 - Sut mae'ch camau gweithredu o blaid bioamrywiaeth wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol a manteision eraill ar gyfer iechyd, cydlyniant cymdeithasol a chynnyrch economaidd (h.y. ar draws nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol)
 - Yr arbedion costau a'r arbedion effeithlonrwydd sydd wedi'u sicrhau trwy weithredu o blaid bioamrywiaeth, a'r manteision hirdymor sy'n deillio o atal difrod pellach
 - Unrhyw alluogwyr allweddol i weithredu o blaid bioamrywiaeth
 - Effeithiau negyddol sy'n amlwg neu sy'n parhau ac unrhyw rwystrau i weithredu
- Set fach o astudiaethau achos/enghreifftiau sy'n darlunio'r uchod.

Adroddiad ar Weithredu

Amcan NRAP³ 1: Ennyn a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn i fioamrywiaeth fwrw gwreiddiau yn y broses benderfynu ar bob lefel.

Dylid cynnwys camau sydd wedi'u rhoi ar waith i wneud y canlynol:

- Cynnwys camau gweithredu o blaid bioamrywiaeth ym mhob un o swyddogaethau'ch sefydliad, er enghraifft trwy'r canlynol:
 - Cynnwys ymrwymadau mewn cynlluniau corfforaethol
 - Cynnwys bioamrywiaeth a'r ddyletswydd a6 ym maes rheoli perfformiad, trwy Ddatganiadau Amgylcheddol, Cynlluniau Llesiant Lleol, Datganiadau Llesiant, Cynllun a6 annibynnol, gwaith cynllunio busnes a monitro cyllidebau, systemau rheoli perfformiad, ac ymgynghoriadau neu archwiliadau mewnol
 - Gwerthfawrogi bioamrywiaeth yn fwy effeithiol ac yn fwy hirdymor wrth wneud penderfyniadau
 - Sicrhau bod swyddogaethau ledled eich sefydliad yn rhoi camau

³ Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru

bioamrywiaeth ar waith ar sail busnes fel arfer

- Codi ymwybyddiaeth ledled eich sefydliad, er enghraifft trwy:
 - Ddarparu modiwlau hyfforddiant gorfodol neu wirfoddol
 - Cynnal seminarau neu ddarparu gwybodaeth i amlygu pwysigrwydd a gwerth bioamrywiaeth a sut mae'ch sefydliad yn cyfrannu at weithredu o blaid bioamrywiaeth

Cynnwys unrhyw fesurau a/neu ddangosyddion sydd wedi'u monitro neu eu casglu, er enghraifft:

- Rhestr o bolisiâu cyhoeddedig sydd wedi'u newid i gynnwys bioamrywiaeth
 - Dulliau prisio bioamrywiaeth sydd wedi'u treialu
 - Rhestr o hyfforddiant bioamrywiaeth/mentrau codi ymwybyddiaeth a rhagor o fanylion
 - Nifer y staff sy'n derbyn hyfforddiant
- Gwybodaeth ychwanegol: Dylech gynnwys gwybodaeth ychwanegol fel costau, manteision, effeithiau a chanlyniadau camau gweithredu sy'n berthnasol i'r amcan NRAP hwn.
 - Naratif/graffeg: Dylech gynnwys naratif cryno ac unrhyw graffeg sy'n disgrifio'r wybodaeth rydych wedi'i chynnwys o dan yr amcan hwn.

Amcan NRAP 2: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd sydd o'r pwys mwyaf a'u rheoli'n well

Dylid cynnwys camau sydd wedi'u rhoi ar waith i wneud y canlynol:

- Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd arbennig sydd wedi'u rhestru yn [rhestrau bioamrywiaeth adran 7](#), er enghraifft trwy:
 - Ddarparu cynefinoedd addas sydd wedi'u rheoli'n briodol ar gyfer rhywogaethau sydd wedi'u gwarchod, lle bo hynny'n briodol
 - Gwella'r broses o reoli cynefinoedd, er enghraifft, ar gyfer pryfed peillio
 - Defnyddio'r system gynllunio i gynnal a gwella rhywogaethau a chynefinoedd
- Cyfrannu at y gwaith o reoli safleoedd a rhywogaethau sydd wedi'u gwarchod, gan gynnwys Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol/Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur, er enghraifft trwy:
 - Sicrhau bod y safleoedd hyn yn cael eu gwerthfawrogi yn y broses o wneud penderfyniadau
 - Cyfrannu at reoli'r safleoedd hyn os yn bosibl
 - Rheoli tir o'u cwrpas i fod yn dir clustog a chysylltu'r safleoedd fel rhan

o rwydweithiau ecolegol cydnerth

Cynnwys unrhyw fesurau a/neu ddangosyddion sydd wedi'u monitro neu eu casglu, er enghraifft:

- Nifer y cynlluniau gweithredu yn ymwneud â safleoedd, rhywogaethau a/neu gynefinoedd
 - Statws a thueddiadau safleoedd, rhywogaethau a chynefinoedd, gan gynnwys unrhyw golledion hysbys yn eich maes dylanwad
 - Data cynllunio o Adroddiadau Monitro Blynyddol⁴ lle bo hynny'n berthnasol
 - Arolygon cyflwr
- Gwybodaeth ychwanegol: Dylech gynnwys gwybodaeth ychwanegol fel costau, manteision, effeithiau a chanlyniadau camau gweithredu sy'n berthnasol i'r amcan NRAP hwn.
 - Naratif/graffeg: Dylech gynnwys naratif cryno ac unrhyw graffeg sy'n disgrifio'r wybodaeth rydych wedi'i chynnwys o dan yr amcan hwn.

Amcan NRAP 3: Gwneud ein hamgylchedd naturiol yn fwy cydnerth drwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd

Dylid cynnwys camau sydd wedi'u rhoi ar waith i wneud y canlynol:

- Creu neu gyfrannu at Rwydweithiau Cadernid Ecolegol,⁵ er enghraifft trwy:
 - Adfer a/neu greu cynefinoedd
 - Cysylltu neu gynyddu ardaloedd cynefinoedd
 - Gwella gwaith rheoli a/neu amrywiaeth ardaloedd cynefinoedd
 - Cyflwyno tystiolaeth ar gyfer datganiadau ardal ac ystyried y cyfleoedd sydd wedi'u hamlygu

Cynnwys unrhyw fesurau a/neu ddangosyddion sydd wedi'u monitro neu eu casglu, er enghraifft:

- Mae Asesiadau Seilwaith Gwyrdd⁶ wedi'u cwblhau lle bo hynny'n briodol
 - Mae cynefin wedi'i greu neu ei adfer, neu mae'r broses o'i reoli wedi gwella
 - Cynefin sydd wedi'i golli
 - Prosiectau i gysylltu cynefinoedd
- Gwybodaeth ychwanegol: Dylech gynnwys gwybodaeth ychwanegol fel costau, manteision, effeithiau a chanlyniadau camau gweithredu sy'n berthnasol i'r amcan NRAP hwn.

⁴ Mae gwybodaeth am Adroddiadau Monitro Blynyddol ar gael ym mharagraff 6.2.12 o [Polisi Cynllunio Cymru \(rhifyn 10\)](#)

⁵ Rhwydweithiau cynefinoedd mewn cyflwr ecolegol da sy'n cysylltu safleoedd dynodedig â mannau pwysig eraill ar gyfer bioamrywiaeth er mwyn sicrhau'r fantais fwyaf ar gyfer bioamrywiaeth a'n llesiant.

⁶ Mae gwybodaeth am Asesiadau Seilwaith Gwyrdd ar gael yn adran 6.2 o [Polisi Cynllunio Cymru \(rhifyn 10\)](#).

- Naratif/graffeg: Dylech gynnwys naratif cryno ac unrhyw graffeg sy'n disgrifio'r wybodaeth rydych wedi'i chynnwys o dan yr amcan hwn.

Amcan NRAP 4: Mynd i'r afael â'r prif bwysau ar rywogaethau a chynefinoedd

Dylid cynnwys camau i wneud y canlynol:

- Mynd i'r afael â'r prif bwysau, er enghraifft trwy:
 - Leihau, neu os oes modd atal, y defnydd o blaladdwyr neu chwynladdwyr
 - Lleihau ardaloedd rhywogaethau estron goresgynnol
 - Lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu adnoddau
 - Lliniaru'r newid yn yr hinsawdd/datgarboneiddio
- Defnyddio atebion bioamrywiol a chynhenid sy'n seiliedig ar natur lle bo hynny'n bosibl, er enghraifft trwy:
 - Osod systemau draenio trefol cynaliadwy
 - Defnyddio seilwaith gwyrdd a glas trefol bioamrywiol cynhenid i reoli tymheredd, llif dŵr, ac erydiad pridd – gan gynnwys plannu coed, glaswelltiroedd a gwlyptiroedd
 - Gosod toeau, muriau a ffyrdd gwyrdd
 - Defnyddio mesurau atal llifogydd naturiol, fel pantiau a gwlyptiroedd
 - Darparu manau gwyrdd er mwyn gwella canlyniadau iechyd a llesiant ar gyfer cymunedau ac ymwelwyr

Cynnwys unrhyw fesurau a/neu ddangosyddion sydd wedi'u monitro neu eu casglu, er enghraifft:

- Gwella ansawdd aer/pridd/dŵr
 - Lleihau'r defnydd o blaladdwyr, chwynladdwyr a chynhyrchion/arferion eraill sy'n peryglu bioamrywiaeth
 - Polisiâu sydd wedi'u cyflwyno i leihau'r pwysau ar rywogaethau e.e. cynaliadwyedd olew palmwydd
 - Defnyddio atebion seiliedig ar natur
 - Lleihau neu reoli ardal â Rhywogaeth Estron Oresgynnol
- Gwybodaeth ychwanegol: Dylech gynnwys gwybodaeth ychwanegol fel costau, manteision, effeithiau a chanlyniadau camau gweithredu sy'n berthnasol i'r amcan NRAP hwn.
 - Naratif/graffeg: Dylech gynnwys naratif cryno ac unrhyw graffeg sy'n disgrifio'r wybodaeth rydych wedi'i chynnwys o dan yr amcan hwn.

Amcan NRAP 5: Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n gwaith monitro

Dylid cynnwys camau i wneud y canlynol:

- Gwella'r defnydd o dystiolaeth wrth wneud penderfyniadau, er enghraifft trwy:
 - Gasglu a rhannu tystiolaeth
 - Defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael ar gyfer gwneud penderfyniadau, er enghraifft defnyddio data Canolfan Cofnodion yr Amgylchedd Lleol wrth wneud penderfyniadau cynllunio
 - Defnyddio [rhestrau rhywogaethau chynefinoedd adran 7](#), yr [Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol](#), a Datganiadau Ardal pan fyddant ar gael
 - Ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol/defnyddio mewnbwn arbenigol
 - Monitro canlyniadau
 - Nodi bylchau mewn tystiolaeth
 - Gwneud gwaith ymchwil
- Rhannu tystiolaeth mewn ffordd hygyrch, er enghraifft trwy
 - Ddarparu data trwy Ganolfannau Cofnodion yr Amgylchedd Lleol
 - Sicrhau bod eich tystiolaeth amgylcheddol ar gael i gymunedau lleol

Cynnwys unrhyw fesurau a/neu ddangosyddion sydd wedi'u monitro neu eu casglu, er enghraifft:

- Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda'r Ganolfan Cofnodion Biolegol Lleol briodol
- Ffynonellau data wedi'u creu neu eu gwella mewn perthynas â diogelu rhywogaethau/cynefinoedd o'r pwys mwyaf
- Ffynonellau data wedi'u creu neu eu gwella mewn perthynas â rhwydweithiau ecolegol cadarn
- Defnyddio tystiolaeth ar fioamrywiaeth ar gyfer penderfyniadau cynllunio e.e. Nifer y ceisiadau cynllunio a gafodd effaith ar safleoedd dynodedig lleol neu genedlaethol, Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop neu rywogaethau A7, nifer y ceisiadau a wrthodwyd oherwydd safleoedd dynodedig lleol neu genedlaethol, Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop neu gynefinoedd neu rywogaethau A7.
- Gwybodaeth ychwanegol: Dylech gynnwys gwybodaeth ychwanegol fel costau, manteision, effeithiau a chanlyniadau camau gweithredu sy'n berthnasol i'r amcan NRAP hwn.
- Naratif/graffeg: Dylech gynnwys naratif cryno ac unrhyw graffeg sy'n disgrifio'r wybodaeth rydych wedi'i chynnwys o dan yr amcan hwn.

Amcan NRAP 6: Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar waith i gyflawni'r amcanion

Dylid cynnwys camau i wneud y canlynol:

- Sicrhau llywodraethu ar gyfer bioamrywiaeth yn eich sefydliad, er enghraifft

trwy:

- Sicrhau bod rhywun yn gyfrifol am sicrhau bod camau o blaid bioamrywiaeth yn cael eu rhoi ar waith – yn y pen draw, dylai bwrdd neu brif weithredwr y sefydliad fod yn gyfrifol am hyn
- Sicrhau bod y ddyletswydd a6 yn cael ei monitro a'i hadolygu
- Darparu capasiti ar gyfer bioamrywiaeth, er enghraifft trwy:
 - Sicrhau bod modd llunio arbenigedd ecolegol, os oes angen, naill ai'n fewnol neu'n allanol
 - Hyrwyddo a chefnogi cyfranogiad gwirfoddol o blaid bioamrywiaeth gan staff neu gymunedau lleol
- Cefnogi camau gweithredu o blaid bioamrywiaeth trwy gyllid a/neu bartneriaethau, er enghraifft trwy:
 - Ddarparu cymorth grant, neu ariannu prosiectau bioamrywiaeth (D.S. mae hyn yn wahanol i gynnwys camau gweithredu o blaid bioamrywiaeth mewn swyddogaethau lle y dylai cyllid fod yn rhan o ddarpariaeth busnes fel arfer – gweler amcan 1 uchod)
 - Gweithio gyda Phartneriaethau Natur Lleol a Chynlluniau Gweithredu Cefnogi sefydliadau a phrosiectau amgylcheddol eraill

Cynnwys unrhyw fesurau a/neu ddangosyddion sydd wedi'u monitro neu eu casglu, er enghraifft:

- Diwrnodau gwirfoddolwyr perthnasol wedi'u cynnal.
- Cynlluniau grant a buddsoddi.
- Gwelliannau perthnasol mewn Capasiti – aelodau staff newydd wedi'u cyflogi.
- Rhestr o ffynonellau cyllido ar gyfer bioamrywiaeth.
- Rhestr o grwpiau amgylcheddol lleol/cenedlaethol sy'n gwneud cyfraniad gweithredol neu sylweddol a/neu sy'n derbyn cymorth.
- Gwybodaeth ychwanegol: Dylech gynnwys gwybodaeth ychwanegol fel costau, manteision, effeithiau a chanlyniadau camau gweithredu sy'n berthnasol i'r amcan NRAP hwn.
- Naratif/graffeg: Dylech gynnwys naratif cryno ac unrhyw graffeg sy'n disgrifio'r wybodaeth rydych wedi'i chynnwys o dan yr amcan hwn.


Adolygiad o ddyletswydd a6

- Amlygu materion allweddol yn ymwneud â gweithredu'r ddyletswydd a6 yn eich sefydliad, a'r newid sydd wedi deillio o hyn wrth roi camau o blaid bioamrywiaeth ar waith, a ddylai gael ei adlewyrchu wedyn yn eich cynllun adran 6 – gweler Atodiad 2 ar gyfer canllawiau adolygu.
- Os nad yw'r adolygiad yn mynd rhagddo ar yr adeg hon, dylai'r adroddiad nodi sut a phryd y bydd yn cael ei gynnal a sut fydd yr adolygiad yn cael ei gynnwys yn y cynllun a6.

ATODIAD 2: CANLLAWIAU ADOLYGU

Dyma rai pwyntiau adolygu i'w hystyried:

- Adolygiad strategol, i asesu a yw'r dull gweithredu yn cyflawni ei brif amcanion, ac a yw "ar y trywydd iawn" o ran y lefel gweithredu.
- Pa mor berthnasol, priodol a chyfoes yw strategaeth yr awdurdod cyhoeddus a'i pholisïau a'i thargedau allweddol?
- Monitro polisïau er mwyn amlygu unrhyw bolisïau nad ydynt yn gweithredu'n effeithiol, a nodi sut y bydd materion o'r fath yn cael eu datrys. Pa mor effeithiol fu'r broses o roi polisïau ar waith i atal penderfyniadau amhrifodol?
- Adolygu unrhyw ddangosyddion perfformiad gan gynnwys, os oes modd, meincnodi, cynnydd yn erbyn targedau ac amcanestyniadau'r dyfodol.
- Pa faterion bioamrywiaeth sydd wedi dod i'r amlwg yn yr ardal neu mewn polisi lleol/cenedlaethol (newidiadau polisi cyd-destunol a chenedlaethol allweddol diweddar, rhagolygon y dyfodol)?
- Pa gamau gweithredu sydd wedi'u datblygu, eu gohirio neu eu hatal?
- Pa alluogwyr allweddol a nodwyd, e.e. cynlluniau grant neu gyllid gan ffynonellau allanol, adolygiad neu archwiliad mewnol systemig?
- Pa rwystrau allweddol sydd wedi codi, e.e. diffyg ymrwymiad i gyflawni'r ddyletswydd, diffyg gwybodaeth neu fynediad i wybodaeth?
- Pa lefel o newid y mae'r ddyletswydd wedi'i sicrhau yn y sefydliad? (gweler Ffigur 1 isod)
- Casgliadau ac argymhellion – nodi unrhyw welliannau a newidiadau i sut y bydd yr awdurdod cyhoeddus yn cyflawni ei ddyletswydd a6.



Ffigur 1: Lefelau newid mewn sefydliadau

Lefel 1 **Newid mewn sefydliadau** – Newid ymddygiad Codi ymwybyddiaeth Datblygu cyfalaf cymdeithasol

Lefel 2 **Newid i strwythur sefydliadol/dylanwad allanol** – Disgrifiadau swyddi Llywodraethu Cyllido Adrodd integredig

Lefel 3 **Newid i'r gymdeithas yn ehangach** - Cydgynhyrchu Cydweithio Rhychwantu ffiniau

Lefel 1 – newid mewn sefydliadau – er enghraifft, ymrwymïadau corfforaethol, archwiliadau mewnol

Lefel 2 – newid i strwythur sefydliadol neu i ddylanwad ar sefydliadau allanol – er enghraifft, llywodraethu, adrodd integredig, darparu cyllid i eraill ar gyfer gwaith bioamrywiaeth

Lefel 3 – newid i ddylanwadu ar y gymdeithas yn ehangach – er enghraifft, prosiectau cydweithredol, wedi'u cynllunio ar y cyd sy'n cynnwys y gymuned leol a fydd yn cael ei heffeithio

Mae'r lefelau hyn yn gysylltiedig – bydd angen i rai sefydliadau newid eu strwythur er mwyn newid ymddygiad (e.e. dyluniad pensaernïol); i rai, gall newid ymddygiad arwain at newid ymwybyddiaeth, i eraill bydd y gwrthwyneb yn wir.